



AQA

CCEA

OCR

Pearson

CBAC

Amrywiad i'r amserlen a datganiad cyfrinachedd ar gyfer goruchwyliaeth dros nos

Rhif y Ganolfan						Enw'r Ganolfan	
Rhif yr ymgeisydd						Enw'r Ymgeisydd	
Teitl y Fanyleb						Rhif yr uned/papur	

Amser a drefnwyd ar gyfer yr arholiad	Dyddiad	Amser
Amser a ail-drefnwyd ar gyfer yr arholiad	Dyddiad	Amser
Y rheswm dros yr amrywiad yn yr amserlen		

A. Datganiad gan yr ymgeisydd

Rwy'n tystio na fyddaf yn cyfarfod na chyfathrebu ag unrhyw ymgeisydd sydd eisoes wedi sefyll yr arholiad nac unrhyw un sydd â gwybodaeth am gynnwys yr arholiad. **Rwy'n deall bod cyfathrebu yn cynnwys unrhyw ffurf ar gyfathrebu electronig, e.e. dros y ffôn (gan gynnwys ffonau symudol), e-bost, y rhyngwrwyd a'r cyfryngau cymdeithasol. Felly, ni chaf fynediad at unrhyw un o'r rhain tra'r wyf dan oruchwyliaeth.** Byddaf hefyd yn cydymffurfio â'r trefniadau a wnaed gan fy nghanolfan arholi.

Rwy'n deall y gall torri'r amodau hyn mewn unrhyw ffordd arwain at gosbau gan y corff dyfarnu yn unol â chyhoeddiad y CGC *Amau Camymddwyn mewn Arholladau ac Asegladau: Polisiâu a Gweithdrefnau.*

Enw'r Ymgeisydd	Llofnod	Dyddiad
-----------------	---------	---------

B. Datganiad gan y Goruchwylwr

Rydw i, (enw), yn tystio y bydd yr ymgeisydd a enwir uchod yn cael ei oruchwyllo'n bersonol gennyf bob amser, o'r adeg y bydd yr unigolyn penodedig yn y ganolfan yn trosglwyddo'r cyfrifoldeb am oruchwyllo'r ymgeisydd i mi, nes i mi drosglwyddo'r cyfrifoldeb am oruchwyllo'r ymgeisydd yn ôl i'r unigolyn penodedig yn y ganolfan.

Rwy'n deall **na chaiff** yr ymgeisydd gyfarfod na chyfathrebu ag unrhyw ymgeisydd sydd eisoes wedi sefyll yr arholiad nac unrhyw un sydd â gwybodaeth am gynnwys yr arholiad. **Mae cyfathrebu yn cynnwys unrhyw ffurf o gyfathrebu electronig, e.e. dros y ffôn (gan gynnwys ffonau symudol), e-bost, y rhyngwrwyd a'r cyfryngau cymdeithasol.**

Byddaf yn sicrhau nad oes mynediad gan yr ymgeisydd at unrhyw un o'r rhain tra y bydd dan fy ngoruchwyliaeth.

Rwy'n deall fod **rhaid** i mi hebrwng yr ymgeisydd at y ganolfan arholi a sicrhau bod y cyfrifoldeb am ei oruchwyllo'n cael ei drosglwyddo i'r unigolyn penodedig yn y ganolfan.

Rwy'n deall y gall torri'r amodau hyn mewn unrhyw ffordd arwain at gosbau gan y corff dyfarnu yn unol â chyhoeddiad y CGC *Amau Camymddwyn mewn Arholladau ac Asegladau: Polisiâu a Gweithdrefnau.*

Statws y goruchwylwr
(e.e. aelod o staff y ganolfan, rhiant, gofalwr)

Enw'r goruchwyliwr (Printiwch yr enw)	Llofnod	Dyddiad
---------------------------------------	---------	---------

C. Datganiad gan bennaeth y ganolfan

O ystyried datganiadau'r ymgeisydd a'r goruchwyliwr, rwy'n tystio y byddaf yn gwneud popeth y mae'n rhesymol ddisgwyliedig i mi ei wneud i sicrhau y bodlonir yr amodau hyn. Byddaf yn rhoi gwybod am unrhyw beth sy'n groes i'r amodau hyn, neu yr amheuir eu bod yn groes i'r amodau hyn i'r corff dyfarnu priodol **ar unwaith**.

Pennaeth y ganolfan (Printiwch yr enw)	Llofnod	Dyddiad
--	---------	---------

Nodiadau ar oruchwyliaeth dros nos ar gyfer ymgeiswyr sydd ag amrywiad yn yr amserlen

1. Os yw cyfanswm hyd yr holl bapurau i'w sefyll mewn un diwrnod yn fwy na 5 awr 30 munud ar gyfer arholiadau TGAU neu'n fwy na 6 awr ar gyfer arholiadau TAG, (UG, U2, Uwch) gall canolfannau ddewis trefnu goruchwyliaeth dros nos.

D.S. Fodd bynnag, dylid rhoi'r cyfle i'r ymgeisydd ddewis sefyll yr holl arholiadau ar y diwrnod gwreiddiol. Dylech gyflwyno cais am ystyriaeth arbennig i'r corff dyfarnu perthnasol am y papur olaf sydd wedi'i sefyll.

2. Lle mae canolfan yn rhoi caniatâd i ymgeisydd sefyll arholiad a oedd wedi'i amserlennu ar gyfer y prynhawn y bore canlynol†, **rhaid i'r ganolfan benodi aelod o staff y ganolfan neu oruchwyliwr i oruchwyllo'r ymgeisydd drwy'r adeg** y bydd ef/hi yn y ganolfan yn sefyll arholiadau. **Rhaid** i'r ymgeisydd fod o dan oruchwyliaeth y ganolfan o 30 munud ar ôl amser dechrau swyddogol yr arholiad sydd wedi'i oedi. **Rhaid** i'r ganolfan sicrhau nad oes unrhyw gysylltiad ag ymgeiswyr eraill.

†Os gohirir unrhyw arholiad o brynhawn dydd Gwener, **rhaid** ei sefyll y bore canlynol, h.y. bore Sadwrn.

3. Gall rhiant/gofalwr neu staff y ganolfan oruchwyllo ymgeisydd ar deithiau i'r ganolfan ac oddi yno a thros nos. **Rhaid** i'r ganolfan benderfynu ar ddull goruchwyllo sy'n sicrhau lles yr ymgeisydd.

Rhaid i'r goruchwyliwr oruchwyllo'r ymgeisydd o'r adeg pan fydd yn gadael goruchwyliaeth y ganolfan nes y bydd y cyfrifoldeb am oruchwyllo'r ymgeisydd yn cael ei drosglwyddo'n ôl eto i'r unigolyn penodedig yn y ganolfan.

4. **Ni chaiff** yr ymgeisydd gyfarfod na chyfathrebu ag unrhyw ymgeisydd sydd eisoes wedi sefyll yr arholiad nac unrhyw un sydd â gwybodaeth am gynnwys yr arholiad. **Mae cyfathrebu yn cynnwys unrhyw ffurf o gyfathrebu electronig, e.e. dros y ffôn (gan gynnwys ffonau symudol), e-bost, y rhyngwyd a'r cyfryngau cymdeithasol. Ni chaiff ymgeisydd fynediad at unrhyw un o'r rhain tra y bydd dan fy ngoruchwyliaeth.**

5. **Rhaid cwblhau'r ffurflen ddim hwytrach na 24 awr cyn dechrau'r goruchwyliaeth dros nos** fel bod y sawl sy'n cymryd rhan yn deall eu cyfrifoldebau yn llawn.

Rhaid i'r ganolfan a'r goruchwyliwr gadw copi o'r ffurflen.

6. **Rhaid peidio** ag amgáu ffurflenni wedi eu llenwi gyda'r sgriptiau. **Rhaid** i'r sgriptiau gael eu hanfon at y corff dyfarnu/arholwr yn y dull arferol.

7. **Rhaid cadw'r holl ffurflenni wedi'u cwblhau ar ffeil yn y ganolfan i'w harolygu.** Gellir storio ffurflenni'n electronig neu fel copi caled. Rhaid eu cadw ar ffeil tan y bydd y dyddiad cau ar gyfer adolygu'r marcio wedi pasio neu tan y bydd unrhyw apêl, ymholiad am ganlyniadau neu unrhyw ymholiad arall wedi'i gwblhau, pa bynnag un sydd hwyraf. **Ni ddylid anfon y ffurflen hon at gorff dyfarnu, oni bai y gofynnwyd amdani yn benodol.**

8. **Rhaid** i bennaeth y ganolfan fod yn fodlon bod y trefniadau yn bodloni gofynion y corff dyfarnu.

9. **Rhaid** i'r corff dyfarnu gael gwybod **ar unwaith** am unrhyw beth sy'n groes i'r amodau hyn, neu yr amheuir eu bod yn groes i'r amodau.

10. Caiff y corff dyfarnu ddefnyddio dulliau priodol i sicrhau bod yr amodau hyn wedi'u bodloni, a bydd yn cymryd camau os oes tystiolaeth o unrhyw beth sy'n groes i'r amodau. Gallai hyn arwain at ddiarddel unrhyw ymgeisydd/ymgeiswyr dan sylw, a gallai effeithio ar p'un a fyddai'r cyrff dyfarnu yn caniatáu i drefniadau o'r fath gael eu gwneud yn y dyfodol.